



BRIFF DYLUNIO COEDWIGAETH

TROSOLWG & HANES CYFFREDINOL

Mae'r cynllun adnoddau coedwigaeth newydd i Ddyffryn Afan yn ymestyn dros 3,940 Ha ac yn ymgorffori pum uned cynllun coedwigoedd blaenorol: 5 Craig Emroch, Foel, Afan (Michaelston) a Phenhydd, Gorllewin a Dwyrain Glyncoerwg. Mae'r ystâd goed yn ymestyn dros 12 milltir ar hyd Dyffryn Afan o Gwm Afan yn y Gorllewin i ben yr afon Afan yn y Dwyrain. Mae hefyd yn cynnwys llethrau gogleddol Cwm Dyffryn, llethrau deheuol Cwm Pelenna a rhannau isaf Dyffryn Glyncoerwg (Gweler y Map Lleoliad). Nid yw rhan uchaf Dyffryn Glyncoerwg a oedd yn ffurfio hen ardal FDP Gogledd Glyncoerwg wedi'i chynnwys gan fod mwyafrif yr ardal honno yn rhan o'r ardal Adeiladu, Cynllunio a Rheoli ar gyfer Fferm Wynt Pen y Cymoedd. Bydd yn cael ei adnewyddu fel rhan o Gynllun Adnoddau Coedwig ar wahân i holl ardal y fferm wynt.

Mae daearyddiaeth gyffredinol yr ardal yn cynnwys ochrau dyffryn serth gyda draeniad rhydd, ond mae'r priddoedd yno'n aml yn wael oherwydd hanes glofaol yr ardal. Mae llwyfandiroedd uwchdirol mwy gwastad gyda phriddoedd sy'n draenio'n wael gan gynnwys mannau gyda mawn dwfn. Mae uchder a natur agored yr ardal goedwigaeth yn amrywio'n fawr o 50m uwchben lefel y môr yng Nghraig Emroch ar y Gorllewin i 550m uwchben lefel y môr ar ben Dyffryn Afan. Mae hyn hefyd i'w weld yn sgoriau DAMS sy'n mesur natur agored yr ardal gyda'r sgoriau'n amrywio o 5 i dros 20 ledled ardal y cynllun adnoddau.

Plannwyd cnydau conwydd ym mwyafrif yr ardal goedwigaeth yn gyntaf yn yr 1950au a'r 1960au gyda phlannu pellach yn yr 1980au. Plannwyd llarwydd a phinwydd yn bennaf ar y llethrau isaf, gyda phyrwydd ar y llethrau uchaf. Mae rhai o'r cnydau conwydd hyn yn cynnwys conwydd ail gylchdro sydd wedi sefydlu'n dda ac sy'n barod i'w teneuo e.e. llwyfandir Michaelston. Ychydig o goed llydanddail sy'n bodoli (tua 5%) ac maent i'w gweld ar hyd glannau isaf afonydd Afan a Phelenna sy'n Safleoedd Coetiroedd Hynafol.

Lluniwyd y Cynlluniau Dylunio Coedwigaeth cymeradwy blaenorol sy'n berthnasol i'r ardal cynllun adnoddau newydd ar ddechrau'r 2000au ac mae'n bryd eu hadnewyddu nawr. Mae llawer o'r gwaith rheol gaiff ei ddisgrifio yn y cynlluniau hynny yn canolbwyntio ar ail-strwythuro'r goedwig ar y rhannau uchaf er mwyn torri i fyny clystyrau conwydd tebyg o ran oedran. Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS) oedd i'w defnyddio'n bennaf i reoli'r cnydau llarwydd ar y llethrau isaf. Roedd y rhywogaethau i'r dyfodol yn dangos cynnydd mewn coed llydanddail a gostyngiad mewn pyrwydd Sitka, gyda llawer o'r cnydau llarwydd i'w hymestyn. Fodd bynnag, mae dyfodiad a lledaeniad yr haint *Phytophthora*

ramorum mewn rhannau mawr o'r cnydau llarwydd wedi achosi iddynt gael eu cwmpo, ar draul ail-strwythuro'r llwyfandiroedd ucheldirol.

AMCANION A BLAENORIAETHAU

Mae gan lawer o'r amcanion a'r blaenoriaethau isod nifer o fanteision, gan gynnwys rhai economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a gweithredol. Cyflwynir y briff gyda'r categorïau canlynol:

Cwmpo yn sgil *Phytophthora* - Yn y 4 blynedd diwethaf, torrwyd dros 650 Ha o larwydd a chnydau cysylltiedig o ganlyniad i haint *Phytophthora ramorum* yn unol â strategaeth rheoli clefydau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys dros 15% o ardal goedwigaeth Dyffryn Afan. Mae oddeutu 230 Ha o larwydd aeddfed a llarwydd ifanc yn dal yn sefyll, a byddant yn cael eu cwmpo cyn gynted ag y bo hynny'n weithredol bosibl. Mae hyn yn cyfateb i 6% pellach o'r ardal goedwigaeth.

Dan drefniadau rheoli arferol, byddai'r gyfradd gwmpo hon yn cael ei hystyried yn anghynladwy yn yr hirdymor. Y canlyniad yw nifer o gyfleoedd ac effeithiau sy'n cael sylw gan y Briff Dylunio Coedwigaeth hwn:

- Cynnydd yn y rhaglen ail-stocio, gyda chyfle potensial i ail-stocio gydag ystod o rywogaethau a fydd yn ychwanegu amrywiaeth i'r goedwig
- Rhesymoli'r llarwydd a'r cnydau cysylltiedig sy'n weddill gyda ffiniau'r fferm wynt cyn gynted â phosibl
- Torri llai o glystyrau o faint, nifer a chyfaint pren.
- Cadw cnydau a oedd efallai dan ystyriaeth i gael eu torri ynghynt pa na bai *P. ramorum* wedi heintio'r cnydau llarwydd.

Rheoli Coedwigaeth a Choedamaeth i'r Dyfodol - Fel y nodwyd uchod, bydd cael gwared â llarwydd yn cael effaith fawr ar gynllun rheoli hirdymor y goedwig. Un dylanwad mawr fydd y cynnydd posibl mewn mannau gweigion mewn clystyrau sydd i'w torri. Bydd yn rhaid ail-gynllunio neu ddileu'r rhain yn y FDP newydd a chytuno gyda'r adran gynaeafu. Mae gwneud iawn am yr holl goed sydd wedi'u cwmpo yn y blynyddoedd diwethaf a'r blynyddoedd i ddod hefyd yn flaenoriaeth. Mae cnydau presennol i'w rheoli gan LISS/CCF lle bynnag bod amodau fel priddoedd, llethrau, wyneb-wedd a pha mor agored ydynt yn gofyn am hynny. Bydd y math hwn o reoli yn ddibynnol ar arferion coedamaeth da a sicrhau bod teneuo cnydau presennol yn digwydd yn brydlon. Mae cynllun teneuo i'r goedwig sy'n nodi cnydau y gellir efallai eu teneuo yn ystod oes 10 mlynedd y cynllun adnoddau yn rhan o'r FDP newydd. Bydd yn cyd-fynd â rhaglenni teneuo tactegol presennol y tîm Cynllunio Ardal.

Bydd ardaloedd nad ydynt yn addas ar gyfer rheolaeth System Goedamaeth Fach ei Heffaith (LISS) fel llwyfandiroedd uchaf coedwig Glyncorwg yn parhau i gael eu llwyrgwmpo. Mae ail-strwythuro'r goedwig yn y mannau hyn yn flaenoriaeth a bydd hynny'n parhau unwaith bod y prif gwmpo wedi dod i ben. Bydd hyn yn helpu i dorri ar y clystyrau eang o byrwydd Sitka tebyg o ran oedran. Mae clystyrau llai o faint mewn ardaloedd ucheldirol yn ddymunol ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth i gynnal rhywogaethau â blaenoriaeth fel nyddwyr. Bydd ardaloedd pinwydd hefyd yn cael eu hasesu i weld os ydynt yn addas i'w cadw i'r hirdymor neu'n addas ar gyfer gwarchodfeydd natur lle mae manteision lu o ran hamdden a chadwraeth. Mae teneuo pinwydd lle bo hynny'n bosibl yn

hanfodol i helpu rhwystro/lleihau haint Malltod Nodwyddau Bandiau Coch ac i wella cyflwr hirdymor y cnydau.

Safleoedd Coetiroedd Hynafol - Er nad yn rhan fawr o'r ardal goedwigaeth, sef 7% (280Ha), bydd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS) yn cael eu hadfer fel bod o leiaf 50% yn goed llydanddail brodorol os yn rhannol adfer. Lle bo'r potensial i wneud hynny, bydd 80% yn goed llydanddail os ydynt yn adfer yn llwyr yn unol â Chyfarwyddyd Coetiroedd Hynafol CCC 2013. Nid yw hyn yn gwrthod y syniad o blannu rhywfaint o goed conwydd yn y mannau hyn yn y dyfodol. Bydd cnydau Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn cael eu rheoli drwy Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS) lle bo hynny'n weithredol bosibl. Bydd rhywogaethau ymlledol fel Cegid y Gorllewin a rhododendron yn cael eu gwaredu trwy gael eu llwyr-gwmpo. Mae sicrhau cysylltedd gyda choed llydanddail a choetiroedd brodorol tu allan i ffiniau'r ystâd yn hanfodol os am greu strwythur coedtir brodorol parhaol yn y Dyffryn.

Rhywogaethau a Chynefinoedd y Goedwig i'r Dyfodol - Bydd torri cnydau llarwydd ar raddfa eang yn arwain at gyfle i sicrhau mwy o amrywiaeth o ran cnydau conwydd a chnydau llydanddail cynhyrchiol yn yr hirdymor yn Nyffryn Afan. Bydd mwy o gysylltedd llydanddail yn cael ei sefydlu ar hyd coridorau torlannol i'w cysylltu gyda Safleoedd Coetiroedd Hynafol. Yn gyffredinol, rhagwelir y dylai ail-stocio yn y dyfodol fod fel a ganlyn - oddeutu traean yn llydanddail a dwy ran o dair yn gonwydd. Bydd sicrhau amrywiad yn un o brif egwyddorion rhaglenni rhywogaethau ac ail-stocio yn y dyfodol (CCC 'A Guide for increasing tree species diversity in Wales' 2010) er mwyn sicrhau coedwig gadarn a gwydn i'r dyfodol. Bydd rhywogaethau mwy addas, cymysgedd o darddleoedd a chnydau meithrin yn cael eu hannog. Byddwn yn osgoi ungyddau ar raddfa eang. Ni fydd llarwydd ac onn yn cael eu hail-blannu yn sgil canllawiau rheoli clefydau Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Gadewir ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan dân fel 'Sunnyside' a 'Blaengwynfi' i ailfywio'n naturiol.

Adfer Mawn Dwfn/Cynefin Agored – Mae adfer Cynefinoedd Agored â Blaenoriaeth yn elfen fawr a phwysig o Gynllun Adnoddau Coedwig Dyffryn Afan. Mae ardal o gynefin grug agored eisoes wedi'i hadnabod ac roedd yn rhan o'r FDP blaenorol ar y Foel. Bydd hyn yn parhau fel rhan o'r FDP newydd. Ers 2013, mae canllawiau polisi ar briddoedd mawn yn awgrymu y dylid arolygu ardaloedd o fawn dwfn dros 50cm o ddyfnder i weld os ydynt yn addas ar gyfer eu hadfer. Mae priddoedd mawn mewn rhai ardaloedd ar lwyfandir ucheldirol Michaelston ger ardal Adeiladu, Cynllunio a Rheoli fferm wynt Pen-y-Cymoedd ac yng Ngorllewin a Dwyrain Glyncorrwg ac mae'r potensial yno ar gyfer adfer yn y tymor hir.

Manteision Hamdden, Tirwedd a Chymunedol – Mae hamdden yn chwarae rhan bwysig yn y goedwig ym Mharc Coedwig Afan a Dyffryn Afan ehangach. Mae'r ystâd goedwigoedd yn darparu cefndir godidog ar gyfer nifer o weithgareddau hamdden yn y Dyffryn. Beicio mynydd yw'r prif atyniad i dwristiaid yn yr ardal ac mae'n dod â manteision economaidd pwysig i'r gymuned leol. Mae cwmpo cynifer o goed wedi effeithio ar y dirwedd, y profiad i ymwelwyr ac o bosibl, ar nifer yr ymwelwyr. Mae llawer o'r blaenoriaethau uchod yn mynd i'r afael â gwella a datblygu gwydnwch tirwedd y coedwigoedd yn ei chyfanrwydd.

Yn dilyn ymgynghoriad cymunedol, lluniwyd yr argymhellion canlynol:

- Cynyddu gorchudd llydanddail a choed brodorol
- Darparu golygfannau parhaol (nid rhai diflanedig yn unig)
- Lleihau llwyrgwmpo
- Cynyddu teneuo a Choedwigaeth Gorchudd Parhaol (CCF)
- Lleihau risg/atebolrwydd gyda pherchnogion tir cyfagos
- Cadw safleoedd cynaeafu yn daclus
- Mwy o byllau a gwlyptiroedd
- Mwy o liw a chymysgeddau tymhorol
- Gwneud yn fawr o nodweddion daearegol
- Cynyddu'r manteision ddaw o dwristiaeth
- Cynyddu cyfleoedd hamdden
- Gwella mynedfeydd i'r coedwigoedd

Bydd pob un o'r uchod yn cael effeithiau positif ar y goedwig ac felly o fudd i hamdden yn yr hirdymor. Bydd llawer o'r ceisiadau a restrwyd yn cael sylw yn sgil arferion rheoli coedwigoedd da a'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn y briff.

Gofod Agored - Bydd gofod agored ar raddfa lai ar lefel clwstwr micro-ddyluniad yn chwarae rôl bwysig yn nhermau hamdden a bioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd gofod agored hefyd yn cael ei adnabod ar raddfa'r FDP yn enwedig i Henebion Cofrestredig, ffyrddfreintiau llinellau pŵer, cynlluniau gwella'r dirwedd ac i agor golygfannau pwysig yn y goedwig.

Dŵr

Mae Dalgylchoedd Afonydd Afan a Pelenna yn gyrrff dŵr sy'n methu, a hynny'n bennaf oherwydd rhesymau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant glo arferai fod yno a'r gwaddol a adawyd. Bydd yr holl weithrediadau cwmpo ac ail-stocio o fewn cwmpas y cynllun yn cael eu hasesu dan ganllawiau presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn nhermau real, gallai hyn olygu bod angen ail-drefnu gweithrediadau cwmpo/ail-stocio unigol er mwyn osgoi cwmpo mwy na 20% o ddalgylch (cynradd, eilaidd neu drydyddol) o fewn cyfnod 3 blynedd (lle mae'r dalgylch yn fwy na 100Ha).

Mae'r canllawiau Coedwigaeth a Dŵr fersiwn 5, 2011 ac adran Coedwigoedd a Dŵr Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS) yn cynnig arweiniad a chymorth. Ymhellach, bydd y system rheoli dŵr newydd a gyflwynwyd yn 2014 fel rhan o'r broses cynllunio clystyrau yn sicrhau bod clystyrau risg uchel yn cael eu hadnabod yn gynnar yn y broses, ac y bydd holl glystyrau yn cael eu hasesu'n drylwyr yn nhermau'r risg i ansawdd dŵr.

Ymgynghorwyd ag aelodau tîm ansawdd amgylcheddol CNC fel rhan o'r broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid.

Seilwaith

Mae rhwydwaith ffyrdd Dyffryn Afan eisoes yn ddigonol i hwyluso gweithrediadau sydd ar y gweill. Mae'n bosibl y bydd angen uwchraddio rhai ffyrdd gyda llwybrau cysylltiol, ond ni fwriedir adeiladu unrhyw ffyrdd newydd o fewn y cyfnod adnewyddu hwn.